# Cadw'ch gwybodaeth yn gyfrinachol a diogel

Mae'r daflen hon yn egluro'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi, pam ein bod ni'n cadw'ch gwybodaeth, sut rydym yn defnyddio ac yn cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel a chyfrinachol, sut y gallwch gael mynediad at eich cofnodion iechyd a'ch hawliau gwybodaeth.

Marie Curie

## Eich gwybodaeth bersonol fel claf

Wrth gyflawni ei weithgareddau, mae Marie Curie yn casglu, storio a phrosesu eich gwybodaeth bersonol fel y gallwn roi'r gwasanaeth gorau posibl i chi, yn ogystal â'r gofal a'r driniaeth sydd eu hangen arnoch, pan fyddwch eu hangen. Rydym yn cydnabod yr angen i drin data personol a sensitif mewn modd teg a chyfreithiol. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw gennym ni yn cael ei phrosesu oni bai bod y gofynion ar gyfer prosesu teg a chyfreithiol yn cael eu bodloni. Mae mynediad at ddata personol a sensitif yn cael ei reoli, ac ar gael ar sail 'yr angen i wybod' yn unig. Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant ar egwyddorion diogelu data a diogelwch gwybodaeth.

## Pa fathau o ddata personol rydym yn eu trin ar eich cyfer?

Ein nod yw darparu gofal o'r ansawdd uchaf i chi. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i ni gadw cofnodion amdanoch a'r gofal rydym yn ei ddarparu i chi. Rydym yn casglu, cadw a phrosesu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn cael eich atgyfeirio. Mae'r data personol rydym yn eu prosesu mewn perthynas â'n gofal yn cael eu darparu i ni gan yr unigolyn yn ogystal â'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol trydydd parti a atgyfeiriodd yr unigolyn atom.

Gallai'r data hyn gynnwys demograffig personol (gan gynnwys rhywedd, hil, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd), manylion cyswllt megis enwau, cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyswllt/cysylltiadau mewn argyfwng, gwybodaeth feddygol gan gynnwys iechyd corfforol neu gyflwr/cyflyrau meddwl, meddyginiaethau, triniaethau blaenorol a chofnodion o ofal a roddwyd gan sefydliadau iechyd neu ofal cymdeithasol eraill.

Caiff cofnodion iechyd eu cadw ar bapur ac yn electronig, ac mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i gadw'r rhain yn gyfrinachol, yn gywir ac yn ddiogel ar bob adeg yn unol â Chyfreithiau Diogelu Data.

Mae hyn yn cynnwys manylion personol, megis y wybodaeth ganlynol am gleifion:

- enw a chyfeiriad
- rhif ffôn a chyfeiriad e-bost
- dyddiad geni
- perthynas agosaf
- gwybodaeth am iechyd, megis nodiadau am eich salwch, triniaeth a gofal gan gynnwys eich meddyginiaeth, canlyniadau pelydrau x, sganiau a phrofion.

## Beth yw diben prosesu'r data hyn?

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data hyn yw bod dyletswydd ar Marie Curie i ofalu am ei gleifion ac mae dan gontract i ddarparu gofal iechyd gan y GIG. Mae prosesu'r data hyn yn angenrheidiol ar gyfer darparu gofal iechyd a chymdeithasol a thriniaeth cleifion, ac i reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Mae'r wybodaeth a gesglir amdanoch chi i ddarparu eich gofal iechyd hefyd yn cael ei defnyddio i helpu gyda'r canlynol:

- Sicrhau bod eich gofal wedi'i gydlynu ac o safon uchel
- Asesu eich cyflwr yn erbyn cyfres o feini prawf risg i sicrhau eich bod yn derbyn y gofal gorau posibl
- Defnyddio gwybodaeth ystadegol i gynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth

- Paratoi ystadegau ar ein perfformiad ar gyfer comisiynwyr y GIG, y Comisiwn Ansawdd Gofal a sefydliadau rheoliadol eraill
- Helpu i hyfforddi staff a chefnogi ymchwil
- Helpu i ariannu eich gofal
- Adrodd ac ymchwilio i gwynion, honiadau a digwyddiadau anffafriol
- Adrodd am ddigwyddiadau i'r awdurdodau priodol pan fydd yn ofynnol i ni wneud hynny yn unol â'r gyfraith.

Os bydd angen i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol am unrhyw reswm y tu hwnt i'r rhai a nodir uchod, byddwn yn trafod hynny gyda chi. Mae gennych yr hawl i ofyn i ni beidio â defnyddio eich gwybodaeth yn y ffordd hon. Fodd bynnag, mae eithriadau i hyn:

- Os ystyrir bod budd y cyhoedd yn bwysicach: er enghraifft, os oes trosedd ddifrifol wedi digwydd, os oes perygl i'r cyhoedd neu'n staff; i amddiffyn plant neu oedolion sy'n agored i niwed
- Os oes dyletswydd gyfreithiol arnom i wneud hynny, er enghraifft adrodd am afiechydon heintus, anafu yn sgil arf tân a chydymffurfio â gorchmynion llys
- Os oes angen i ni ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer ymchwil meddygol. Rhaid i ni geisio caniatâd y Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd (a benodwyd gan Awdurdod Ymchwil Iechyd y GIG) i wneud hyn.

Mae ein staff wedi'u hyfforddi i drin eich gwybodaeth yn gywir ac amddiffyn eich cyfrinachedd a'ch preifatrwydd; nid ydym yn cynnal gweithgareddau gwneud penderfyniadau awtomataidd megis proffilio. Ein nod yw cynnal safonau uchel, mabwysiadu arfer gorau ar gyfer cadw cofnodion a gwirio ac adrodd ar

ein perfformiad yn rheolaidd. Nid yw eich gwybodaeth byth yn cael ei chasglu at ddibenion marchnata uniongyrchol ac ni chaiff ei gwerthu i unrhyw sefydliadau trydydd parti arall. Nid yw eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu dramor.

## Rhannu eich gwybodaeth

Weithiau, gallai eich gofal gael ei ddarparu gan aelodau o dîm gofal, a allai gynnwys pobl o sefydliadau eraill megis iechyd, gofal cymdeithasol, addysg neu sefydliadau gofal eraill. Gallai gwybodaeth gael ei rhannu gyda'r gweithwyr proffesiynol eraill hyn er mwyn darparu gofal uniongyrchol i chi ac i ddiogelu eich lles chi a phobl eraill. Os ydych chi'n gwrthwynebu i ni rannu eich gwybodaeth, byddwn yn parchu hyn lle bynnag y bo modd. Os, am unrhyw reswm, bydd angen i ni rannu gwybodaeth yn groes i'ch dymuniadau, fe'ch hysbysir am hynny cyn gynted â phosibl. Os bydd angen rhannu unrhyw wybodaeth gydag unrhyw un arall, at unrhyw ddiben arall, byddwn yn ceisio eich caniatâd.

## Gyda phwy arall y byddwch yn rhannu fy ngwybodaeth?

Gallai eich gwybodaeth gael ei defnyddio i'n helpu ni i gynllunio a gwella ein gwasanaethau, er enghraifft drwy wybodaeth ymchwil, archwilio neu ystadegol. Pan fyddwn yn gwneud hyn, rydym yn gwneud y wybodaeth yn ddienw fel nad yw'n bosibl eich adnabod.

Efallai y byddwn yn defnyddio neu roi gwybodaeth ddienw amdanoch chi i sefydliadau gofal iechyd neu ofal cymdeithasol eraill i gefnogi gweithgareddau archwilio ac ymchwil. Pan fyddwn yn gwneud hyn, caiff yr holl wybodaeth allai gael ei defnyddio i'ch adnabod ei thynnu.

Mae cleifion sydd wedi dewis Optio Allan o Ddata Cenedlaethol yn cael eu heithrio'n awtomatig o'r dewisiadau data ymchwil ac archwilio.

Byddwn bob amser yn ceisio eich caniatâd i ddefnyddio eich stori bersonol neu lun ohonoch i hyrwyddo Marie Curie. Nid ydym yn rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau at ddibenion marchnata.

## A fyddwch chi'n rhannu gwybodaeth gyda fy nheulu?

Ni fyddwn ond yn rhannu gwybodaeth amdanoch gyda'ch teulu, ffrindiau neu ofalwyr os rhoddwch ganiatâd i ni wneud hynny.

## Sut rydych chi'n cadw fy nghofnodion yn ddiogel?

Mae dyletswydd gyfreithiol a phroffesiynol ar bawb sy'n gweithio ym Marie Curie i gadw eich gwybodaeth bersonol, ariannol ac iechyd yn gyfrinachol. Byddwn yn dilyn canllawiau llym ar sut y caiff gwybodaeth ei chasglu, ei chadw a'i rhannu. Caiff eich gwybodaeth ei hamddiffyn ymhellach gan gydymffurfiaeth Marie Curie â gofynion y canlynol:

- Deddf Diogelu Data (2018) Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'r DU
- Cyfrinachedd: Cod Ymarfer y GIG (2003)
- Cod Ymarfer Codi Arian y Rheoleiddwyr (2016)

Caiff cyfrinachedd cleifion ei fonitro gan ein Gwarcheidwad Caldicott, uwch glinigwr sy'n sicrhau bod Marie Curie yn amddiffyn hawl cleifion i gyfrinachedd.

## Am ba hyd fyddwch chi'n cadw fy nghofnodion?

Rydym yn dilyn canllawiau cenedlaethol ac felly'n cadw'ch cofnodion iechyd am y cyfnod rydym ynghlwm wrth eich gofal ac fel arfer am wyth mlynedd wedi hynny. Bydd gwybodaeth arall rydym yn ei chadw amdanoch yn cael ei chadw am gyfnod byrrach. Mae ein polisi rheoli cofnodion yn nodi'r meini prawf rydym yn eu defnyddio ar gyfer cadw data yn unol â deddfwriaeth neu ganllawiau cenedlaethol a ddarperir gan awdurdodau statudol. Pan nad oes ei hangen mwyach ar gyfer prosesu o ddydd i ddydd, bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei harchifo, naill ai'n electronig neu ar ffurf copi caled, ei chadw mewn archif diogel a gedwir oddi ar y safle ac yna caiff ei dinistrio pan ddaw'r cyfnod cadw i ben.

## A allaf weld fy nghofnod fy hun?

Mae gennych yr hawl i weld copi o unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch. Os hoffech chi edrych ar eich cofnod gofal, gofynnwch i aelod o'r tîm sy'n gofalu amdanoch. Gallant hefyd egluro unrhyw beth y gallech fod yn ei chael hi'n anodd ei ddeall. Os hoffech chi weld copi o'ch cofnod iechyd, e-bostiwch eich hosbis gyda'ch cais.

## Eich hawliau

Mae cyfreithiau Diogelu Data yn rhoi hawliau i unigolion mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi. Y rhain yw:

- Cael gwybod pam, ble a sut y defnyddiwn eich gwybodaeth
- Gofyn am fynediad at eich gwybodaeth
- Gofyn am gywiro eich gwybodaeth os yw'n anghywir neu'n anghyflawn

- Gofyn am ddileu neu dynnu eich gwybodaeth pan nad oes angen i ni barhau i'w phrosesu
- Gofyn i ni gyfyngu'r defnydd o'ch gwybodaeth
- Gofyn i ni gopïo neu drosglwyddo eich gwybodaeth o un system TG i un arall yn ddiogel, heb effeithio ar ansawdd y wybodaeth
- Gwrthwynebu i sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio
- Herio unrhyw benderfyniadau a wnaed heb ymyrraeth ddynol (gwneud penderfyniadau awtomataidd).

## Beth os oes gennyf bryderon?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth iechyd, ariannol a phersonol, cysylltwch â ni.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch eich data, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data yn **dpo@mariecurie.org.uk**

Os hoffech gyflwyno cwyn am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, gallwch ddod o hyd i fanylion ein gweithdrefnau cwyno ar ein gwefan **mariecurie.org.uk/feedback**

Os byddwch chi'n dal i fod yn anfodlon â chanlyniad eich ymholiad gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Gwybodaeth yn Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF neu ffonio **01625 545 700.**

**mariecurie.org.uk**

Marie Curie

Elusen gofrestredig rhif 207994 (Cymru a Lloegr), SCO38731 (yr Alban) M1191b